

Cefnogi llythrennedd triphlyg

Dysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 2
a Chyfnod Allweddol 3



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Cymraeg • Cymraeg ail iaith • Saesneg • leithoedd tramor modern

Cefnogi llythrennedd triphlyg: Dysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3

Cynulleidfa	Ysgolion, awdurdodau lleol, dysgwyr a llywodraethwyr ysgol; cydlynwyr llythrennedd, athrawon ysgolion cynradd ac athrawon uwchradd Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg ac ieithoedd tramor modern.
Trosolwg	Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth i bawb sy'n ymwneud â dysgu ieithoedd. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion ei ffeindio'n ddefnyddiol wrth ddatblygu polisïau a strategaethau llythrennedd. Mae'n darparu syniadau ymarferol ar gyfer dysgu ac addysgu i athrawon ysgolion cynradd ac athrawon uwchradd ieithoedd er mwyn iddyn nhw alluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau ar draws eu dysgu ieithoedd ac i gefnogi llythrennedd gwell ym mhob iaith.
Camau i'w cymryd	I'w ddefnyddio wrth ddatblygu polisïau a strategaethau llythrennedd, a chefnogi dysgu iaith a datblygu sgiliau ym mhob iaith.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y canllaw hwn at: Yr Is-adran Cwricwlwm Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 5752 e-bost: asesu@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
Dogfennau cysylltiedig	<i>Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm; Canllaw ar addysgu sgiliau ysgrifennu; Canllaw ar addysgu uwch sgiliau darllen</i> (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); <i>Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr</i> (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Datblygu sgiliau ar draws ieithoedd	4
Llythrennedd triphlyg mewn lleoliadau cynradd	7
Datblygu dysgu blaenorol mewn ieithoedd	10
Gweithio gyda'n gilydd ar draws ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3	12
Llythrennedd ym mhob iaith	19
Defnyddio termau cyffredin	24
Gwthio'r cwch i'r dŵr	25
Rhestr wirio ar gyfer llythrennedd triphlyg	27
Atodiad A: Cyfnod Allweddol 2 – Sgiliau a dysgu iaith ar draws ieithoedd	29
Atodiad B: Cyfnod Allweddol 3 – Sgiliau a dysgu iaith ar draws ieithoedd	30
Atodiad C: Rhestr termau	31
Atodiad Ch: Adnoddau a gwefannau defnyddiol	39
Cydnabyddiaethau	40

Cyflwyniad

'Fel gwlad ddwyieithog, rydym yn dechrau o le da oherwydd rydym eisoes yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ddwy iaith wedi'u gwreiddio yn ein system addysg a hyfforddiant. Felly, mae gan ein pobl ifanc fantais o ran meithrin sgiliau iaith a llythrennedd y gallant yn hawdd eu trosi i ieithoedd Ewropeaidd eraill ac i ieithoedd eraill y byd. Yn yr un modd, gall astudio iaith dramor gyfrannu at lythrennedd dysgwyr mewn Cymraeg a Saesneg.'

Sicrhau bod ieithoedd yn cyfrif: ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd a Llwybrau Dysgu 14–19 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)

Mae *Sicrhau bod ieithoedd yn cyfrif: ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd a Llwybrau Dysgu 14–19*, y cynllun gweithredu ar gyfer ieithoedd tramor modern yng Nghymru, yn ymrwymo i ddatblygu canllawiau ar ddulliau effeithiol o weithredu mewn perthynas â llythrennedd triphlyg fel bod dysgu iaith dramor yn ategu'r gwaith ehangach o ddatblygu llythrennedd a sgiliau yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r canllawiau hyn felly yn diweddarau ac yn ychwanegu at *Gwneud y Cysylltiad: Dysgu iaith 5–14* (ACCAC, 2003) a ddatblygwyd er mwyn cefnogi sgiliau iaith dysgwyr yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern.

Rhwng 2005 a 2007, cynhaliodd CILT Cymru Brosiect Ymchwil Gweithredol Llythrennedd Triphlyg gyda grŵp o ysgolion yn dilyn cyhoeddi *Gwneud y Cysylltiad: Dysgu iaith 5–14*. Roedd yr ysgolion hyn yn gweithio ar brosiectau ar draws gwahanol ieithoedd ac roedd hynny o fudd i'r dysgwyr o ran llythrennedd a dysgu iaith. Yn ei adroddiad, *Gwella ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd yng Nghymru* (2009), mae Estyn yn argymhell y dylai ysgolion uwchradd 'datblygu arferion cyffredin rhwng yr adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern er mwyn gwella dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau iaith'.

Mae'r canllawiau diwygiedig yn cymryd i ystyriaeth y datblygiadau a fu yng Nghymru gan gynnwys y ffocws ar ddatblygu sgiliau a'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008), y cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig (2008), y cynllun peilot ieithoedd cynradd Cyfnod Allweddol 2, datblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen ac adnewyddu'r ffocws ar lythrennedd yng Nghymru.

Mae'r canllawiau yn cefnogi athrawon iaith trwy greu cysylltiadau ar draws gwahanol ieithoedd, adeiladu ar brofiad y dysgwr o ieithoedd eraill a dysgu blaenorol a chefnogi cynnydd dysgwyr ym mha bynnag ieithoedd maen nhw'n eu hastudio.

Diben y canllawiau hyn yw:

- dangos sut gellir gwneud cysylltiadau i gefnogi gwell llythrennedd ym mhob iaith
- amlygu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith a llythrennedd ar draws Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern
- rhoi syniadau ymarferol ar gyfer dysgu ac addysgu trwy gyfrwng astudiaethau achos o arfer da
- darparu rhestr termau cyffredin o dermau iaith yn Gymraeg a Saesneg.

Datblygu sgiliau ar draws ieithoedd

Mae ffocws ar ddatblygu sgiliau yn sail waelodol i'r holl gwricwlwm yng Nghymru. Yn y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, mae dysgwyr yn datblygu a chymhwyso eu sgiliau cyfathrebu trwy sgiliau llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach.

Yn y Rhaglenni Astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 mae ystod eang o sgiliau iaith a gweithgareddau dysgu iaith sy'n gyffredin i Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern. Mae'n bwysig bod athrawon yn cydnabod y nodweddion cyffredin hyn fel gall dysgwyr adeiladu ar eu sgiliau a chreu'r cysylltiadau ar draws yr ieithoedd maen nhw'n eu dysgu. Ar draws yr ieithoedd, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gyfathrebu'n gywir, gyda hyder, mwynhad a diddordeb mewn ystod gynyddol o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfle iddyn nhw ddarllen, gwylio a gwrando ar ystod eang o ddeunyddiau ac i ymateb mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd.

Mae'r gridiau ar gyfer sgiliau a dysgu iaith yn Atodiad A ac Atodiad B yn mapio'r sgiliau cyffredin ar draws ieithoedd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos sut penderfynodd un ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ganolbwyntio ar ddatblygu dull cyffredin o ddarllen yng Nghyfnod Allweddol 3 er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd yn Gymraeg ail iaith, Saesneg a Ffrangeg. Rhoddodd hyn gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau sy'n gyffredin i'r tair rhaglen astudio a chyfleoedd i *ddatblygu'r gallu i ddarllen yn rhugl, yn gywir, gyda dealltwriaeth a mwynhad; defnyddio'r wybodaeth a ddaw o ddarllen testunau i ddatblygu eu dealltwriaeth o strwythur, geirfa, gramadeg ac atalnodi; darllen yn unigol ac ar y cyd; profi ac ymateb i ystod eang o destunau.*

Dull gweithredu cyffredin ar gyfer darllen

Penderfynodd yr ysgol ddatblygu sgiliau darllen a gwella strategaethau dysgwyr ar gyfer sillafu ac atalnodi. Neilltuwyd amser yn ystod cyfnodau cofrestru i ddysgwyr ddarllen yn Gymraeg, Saesneg neu Ffrangeg. Prynwyd set o lyfrau darllen Cymraeg a Ffrangeg newydd at y diben hwn ac addaswyd taflen gofnodi i'w defnyddio ar gyfer Cymraeg a Ffrangeg, a oedd eisoes yn cael ei defnyddio yn yr adran Saesneg i gadw cofnod o'r llyfrau a ddarllenwyd, gan restru geirfa newydd a barn y dysgwyr. Roedd gwersi iaith yn ymgorffori gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar gysylltu sillafu sain, fel bod dysgwyr yn hyderus ynglŷn â'u hynganiad pan fydden nhw'n dod o hyd i eiriau newydd wrth ddarllen.

Hefyd datblygodd yr adrannau iaith siart 'Gwybod eich gramadeg!' ar gyfer pob dysgwr fel siart cyfeiriol ar gyfer eu gwaith ysgrifenedig. Mae gan y siartiau hyn ffocws clir ar ramadeg, gydag enghreifftiau yn Gymraeg, Saesneg a Ffrangeg.

Cynhyrchodd yr athrawon siart o seiniau sillafu ac mae gan bob dysgwr ei lyfr geirfa llythrennedd triphlyg ei hun, yn nodi geiriau newydd yn y tair iaith. O ganlyniad i'r strategaethau hyn, roedd y dysgwyr yn gyffredinol yn darllen mwy a gwella eu geirfa Saesneg. Roedden nhw'n datblygu eu sgiliau geiriadurol ac maen nhw wedi dysgu adnabod cytrasau a thebygrwydd yn y tair iaith. Maen nhw nawr yn fyw hyderus a brwdfrydig wrth droi at destunau Cymraeg a Ffrangeg ac mae eu ffocws ar sillafu a seiniau wedi gwella hyder y dysgwyr yn arbennig wrth iddyn nhw ddarllen yn uchel. Bob wythnos dyfernir tystysgrifau a gwobrau i 'leithydd yr Wythnos'. Roedd y camau nesaf yn cynnwys ychwanegu iaith arall ac mae Eidaleg erbyn hyn yn rhan o'r strategaeth ddarllen a gramadeg.

Date	Title and page	English word and meaning	French	Welsh
23rd November	Glubb Sylme page 62	Triumphantly to be victorious or successful	Triomphale- ment	yn orfoleddus
25th November	page 76	morsels small piece of food	le morceau	tameidiau
27th November	page 77	recoil to jerk back in horror	reculer	gwingo
1st December	page 77	colt - a young male horse	Poulain	ebol
1st December	page 77	postpone - to put off to a later date	renvoyer	gohurio
1st December	page 77	Sentimental- emotional	Sentimental	sentimental teimladwy

(Llyfr geirfa llythrennedd triphlyg)

Know your grammar!

Term	Definition	English	Welsh	French
Verbs	They are doing words e.g. go /play / think/ /do / watch			
An infinitive (type of verb)	The form of the verb you find in the dictionary -sometimes called the 'pure verb'	To play/ to go/ to think/ to eat	Chwarae, mynd, meddwl, bwyta	All infinitives in French end in either <i>er</i> / <i>ir</i> / <i>re</i>
Present tense	Actions or events going on now	I am watching I watch We are eating We eat	e.g. rydw i'n gwyllo Rydyn ni'n bwyta	e.g. <u>jouer</u> / <u>venir</u> / <u>vendre</u> Knock off the <i>er</i> / <i>ir</i> / <i>re</i> and add the new endings. The endings are different for each type of verb. E.g. <u>er</u> verbs = <i>regarder</i> = <i>je regarde</i> / <i>tu regardes</i> etc.
Past tense	Actions or events that happened in the past	I watched We played We have eaten	If the infinitive ends in a vowel, ed, eg - drop. Add the appropriate ending for each person. ais i - I aist ti - you odd e / hi - he / she on ni - we ach chi - you on nhw - they rhedeg = to run - rhedais i - I ran	Use the present tense of <i>avoir</i> plus the past participle e.g. the end of <i>er</i> verbs changes to <i>é</i> so I watched = <i>j'ai regardé</i> / you watched = <i>tu as regardé</i> (careful, 13 verbs use <i>être</i> instead of <i>avoir</i> - MRSVANDERTRAMP verbs e.g. <i>Je suis allé(e)</i>)
Future tense	Actions or events that will happen soon	I am going to watch We are going to visit We shall visit We will eat	I am going to - <i>Rydwn i'n mynd i ...</i> Or use the future tense plus the infinitive. <i>bydd i'n ... I will be</i> <i>bydd di'n - you will</i> <i>bydd e'n/hi'n - he/she will</i> <i>byddwn ni - we will be</i> <i>byddan nhw'n - they will</i> <i>byddwch chi'n - you will</i>	Use the present tense of <i>aller</i> (to go) plus the infinitive. E.g. <i>Je vais regarder</i>

(Siart 'Know your grammar!')

Llythrennedd triphlyg mewn lleoliadau cynradd

Yng Nghymru, mae plant 3 i 7 oed yn mynd i leoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg neu Saesneg ac maen nhw'n cael eu trwytho mewn profiadau a gweithgareddau iaith trwy ddysgu ym Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cyfnod Sylfaen. Mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth o Gymru fel gwlad sydd â dwy iaith ac yn cael eu hannog i ddangos agwedd gadarnhaol at bobl sy'n siarad ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a Saesneg. Mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae Datblygu'r iaith Gymraeg yn Faes Dysgu statudol yn y Cyfnod Sylfaen.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae pob plentyn yn dysgu Cymraeg a Saesneg ac mae llawer o ysgolion cynradd hefyd wedi gweld gwerth mewn addysgu sgiliau mewn iaith dramor o oed cynnar ac wedi ymestyn cyfleoedd i ddysgu iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 2. O ganlyniad, mae nifer cynyddol o ddysgwyr yn cael eu cyflwyno i iaith dramor pan maen nhw yn yr ysgol gynradd. Gall sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith gefnogi cynnydd a datblygu sgiliau a gwybodaeth mewn iaith arall.

Llythrennedd mewn tair iaith

Mae plant yn datblygu ystod o sgiliau iaith o oed cynnar a beth bynnag yw iaith yr aelwyd neu'r ieithoedd maen nhw'n eu dysgu, gellir cefnogi eu cynnydd wrth i'r athro/athrawes gydnabod bod llawer o'r sgiliau sy'n cael eu datblygu yn gyffredin ar draws gwahanol ieithoedd.

Mae'r fframwaith anstatudol ar gyfer ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 yn annog athrawon i roi cyfleoedd *i gymharu a gwerthfawrogi gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng Cymraeg, Saesneg a rhai'r iaith darged, . . . gan ddatblygu sgiliau llythrennedd triphlyg a hyder wrth ddefnyddio iaith*. Gall cefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau gynnal eu cynnydd ym mhob iaith. Bydd dull gweithredu cydgysylltiedig sy'n defnyddio gweithgareddau tebyg, yn defnyddio termau cyffredin ac yn cynorthwyo'r dysgwyr i greu cysylltiadau eu hunain ar draws eu dysgu yn atgyfnerthu eu sgiliau iaith a llythrennedd ac yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae iaith yn gweithio.

Er y cydnabyddir nad yw pob ysgol gynradd yn cynnig ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2, gellir cefnogi cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hyn trwy ddysgu Cymraeg a Saesneg gan gynnwys ieithoedd eraill trwy gysylltiadau rhyngwladol, ieithoedd cartref eraill sydd yn yr ysgol heblaw Cymraeg neu Saesneg a thrwy ddefnyddio gwybodaeth yr athrawon am ieithoedd eraill. Gallai ysgolion hefyd gynnal diwrnodau neu weithgareddau iaith gyda

chefnogaeth yr ysgol uwchradd fel gweithgaredd pontio. Gall cydgysylltwyr Cymraeg, Saesneg a llythrennedd gynllunio'r ffordd orau o gefnogi gwaith ei gilydd a chydgysylltu gyda'r rhai sy'n cyflwyno ieithoedd tramor modern lle'n briodol.

Gall gweithgareddau ysgol gyfan gynnwys:

- sefydlu termau cyffredin ar draws gwahanol ieithoedd ar gyfer cysyniadau iaith, strwythurau ac ati (gweler Atodiad C: Rhestr termau)
- adolygu rhaglenni astudio ar gyfer pob iaith a chynllunio gweithgareddau ategol, pynciau, themâu megis storïau tylwyth teg, ardal leol, bwytfa'n iach
- defnyddio strategaethau cyffredin i helpu plant i gofio sillafiadau
- annog pob athro/athrawes i wneud cysylltiadau clir ar draws ieithoedd, e.e. trwy gymharu, adfyfrio a thrafod ieithoedd
- creu arddangosfeydd amlieithog ar furiau ym mhob rhan o'r ysgol
- datblygu fframiau amlieithog i gefnogi ysgrifennu a siarad.

Adnabod gwahaniaethau a thebygrwydd yng Nghyfnod Allweddol 2

Edrychodd un ysgol gynradd ar y Rhaglenni Astudio ar gyfer Cymraeg ail iaith a Saesneg a'r fframwaith anstatudol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 ieithoedd tramor modern gan ddatblygu dull cydgysylltiedig tuag at ddysgu themâu fel y tywydd a dyddiau'r wythnos fel gellid annog y plant yn ystod y gwersi i wneud cymariaethau rhwng yr ieithoedd ac adnabod cytrasau.

Roedd methodoleg dysgu iaith hefyd yn ffocws. Bu athro dosbarth Blwyddyn 6 a'r athrawes Ffrangeg peripatetig yn arsylwi ei gilydd, dysgu fel tîm ac yn rhannu adnoddau dysgu iaith. Lluniwyd rhestr ganddyn nhw o dermau gramadegol cyffredin, a datblygwyd arddangosfeydd tair iaith yn yr ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cyffredin drwy'r ysgol. Hefyd cynhyrchwyd cyfres o gemau iaith a ddefnyddiwyd yn Gymraeg, Saesneg a Ffrangeg. Roedd y dysgwyr wrth eu boddau yn dysgu ar draws ieithoedd.

Roeddwn i'n meddwl ei fod yn hwyl dod o hyd i debygrwydd rhwng geiriau Cymraeg a Ffrangeg.

Mae'r arddangosfeydd geirfa tair iaith wedi bod yn llwyddiant gan atgoffa dysgwyr yn barhaus ac fel pwynt cyfeiriol iddyn nhw. Mae'r ysgol wedi parhau i ymestyn y defnydd o gemau ac adnoddau eraill i hybu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu iaith. Eleni ysgrifennwyd a pherfformiwyd sioe dairieithog i'r ysgol gyfan lle roedden nhw'n defnyddio tair iaith i ddisgrifio eu hunain a'u teuluoedd mewn drama fer.

Gweithgareddau dosbarth gellir eu hystyried ym mhob iaith:

- gemau yn dynodi seiniau a gemau gwrando fel 'Dywed Simon'
- dysgu cyfarchion yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill a'u defnyddio wrth ateb y gofrestr
- cymharu cysylltiadau sillafu–sain a darllen yn uchel, gan gynnwys dysgwyr yn darllen eu gwaith eu hunain mewn gwahanol ieithoedd
- chwilio am debygrwydd a gwahaniaethau syml mewn iaith a chanfod rheolau
- defnyddio rhai themâu a gweithgareddau cyffredin a chysylltiedig yn Gymraeg, Saesneg ac iaith dramor fodern
- defnyddio dulliau cyffredin ar gyfer cofnodi geiriau newydd, dysgu sillafu a defnyddio geiriaduron
- dod o hyd i wybodaeth neu ddarllen mewn un iaith ac ymateb mewn iaith arall
- dweud stori neu actio drama gan ddefnyddio'r un storïau neu'r un mathau o stori, e.e. storïau tylwyth teg.

Crëwyd gêm cytrasau gan un ysgol gan arddangos geiriau er mwyn i ddysgwyr geisio canfod beth oedd yr ystyron cywir yn Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg.

English	Cymraeg	Français	Español	Deutsch
bridge	pont	riz	cocinar	brücke
cat	reis	cuire	arroz	fenster
window	ffenestr	fenêtre	ventana	reis
rice	cath	pont	gato	katze
to cook	coginio	chat	puente	kochen

(Y gêm cytras)

Datblygu dysgu blaenorol mewn ieithoedd

Gall adnabod sgiliau cyffredin ar draws ieithoedd gefnogi pontio a helpu athrawon i adnabod ac adeiladu ar eu dysgu blaenorol. Fel arfer bydd gan athrawon Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg a Saesneg wybodaeth dda o gyrhaeddiad blaenorol eu dysgwyr ond mae'n fwy anodd i athrawon ieithoedd tramor modern adeiladu ar y sgiliau sydd gan ddysgwyr yn barod.

Pa un a fydd y dysgwyr wedi bod yn dysgu iaith dramor fodern yn yr ysgol gynradd neu beidio, maen nhw i gyd yn cyrraedd Cyfnod Allweddol 3 gydag o leiaf dwy iaith ac ystod o sgiliau a gwybodaeth ieithyddol. Gall gweithio gyda'n gilydd o fewn ac ar draws y lleoliadau gefnogi cynnydd y dysgwyr ym mhob iaith. Dylai pob athro/athrawes iaith uwchradd wybod pa sgiliau iaith mae eu dysgwyr wedi eu caffael eisoes.

Gall gweithgareddau i gefnogi pontio gynnwys:

- gweithgareddau llythrennedd triphlyg ar y cyd ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan
- datblygu cofnod iaith ar gyfer dysgwyr ar draws pob iaith yn amlygu sgiliau a gweithgareddau gallan nhw fynd gyda nhw i'w hysgol newydd
- mapio sgiliau a gweithgareddau iaith ar draws ieithoedd a chyfnodau allweddol
- datblygu uned o waith llythrennedd triphlyg ar gyfer pontio.

Cefnogi pontio trwy lythrennedd triphlyg

Mae ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cyflwyno Ffrangeg yn yr ysgolion cynradd sy'n ei bwydo ac mae'r athrawon ym mhob ysgol yn pwysleisio cysylltiadau ar draws ieithoedd. Pan oedden nhw'n cyrraedd Blwyddyn 7, dewisodd yr ysgol uwchradd y thema 'Fi a'm hardal leol' ar gyfer gwersi yn Gymraeg, Saesneg a Ffrangeg er mwyn targedu elfennau ieithyddol cyffredin ar draws y tair iaith. Cynhyrchodd y dysgwyr fideo amlieithog lle roedden nhw'n siarad am eu hardal leol yn y tair iaith.

Y flwyddyn ganlynol, cyflwynwyd y fideo i'r dysgwyr Blwyddyn 7 newydd ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol yn ystod prynhawn o wersi Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg. Pwysleisiwyd y ffaith bod y dysgwyr yn dairieithog ac roedd cyfle i ddysgwyr gwblhau pasbort teithio tairieithog yn cynnwys manylion amdanyn nhw eu hunain ac yn eu cyflwyno i'w hathrawon newydd.

Codi proffil dysgu ieithoedd ym Mlwyddyn 6

Penderfynodd ysgol uwchradd ddwyieithog fechan godi ymwybyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 o'r ffordd mae 'ieithoedd yn Agor Drysau'. Cafodd dysgwyr ym Mlwyddyn 7 y dasg o wneud drama fer a fyddai'n mynegi'r neges honno ac yna ei pherfformio i ddysgwyr Blwyddyn 6 wrth ymweld â phob un o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd.

Roedd yr adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern yn canolbwyntio ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng yr ieithoedd, ond roedd y gwaith hefyd yn cwmpasu meysydd eraill yn y cwricwlwm, gan gynnwys drama ac ABC.

Perfformiwyd y cynhyrchiad o flaen pob un o'r ysgolion cynradd bwydo yn nhymor yr haf a chynhyrchwyd fideo rhagarweiniol gan grŵp o fechgyn ym Mlwyddyn 7 yn trafod pwysigrwydd iaith a'u hargraffiadau nhw o ddysgu iaith. Mae athrawon yn ymweld â'u hysgolion cynradd bwydo trwy gydol y flwyddyn ac yn rhoi gwersi iaith iddyn nhw fel rhan o'r cynllun pontio ac mae ganddyn nhw system bydi iaith i helpu dysgwyr newydd sydd ddim yn siarad Cymraeg i gynefino.



(Poster cyfarchion)

Gweithio gyda'n gilydd ar draws ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3

Lle bo athrawon yn gwybod am brofiadau eu dysgwyr mewn ieithoedd eraill, gallan nhw atgyfnerthu ac adeiladu ar ddysgu iaith drwy'r ysgol gyfan. I wneud hyn rhaid i'r adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern weithio gyda'i gilydd i weld beth yw'r ffordd orau ymlaen i'w dysgwyr.

Gallai'r strategaethau i athrawon weithio gyda'i gilydd gynnwys:

- cyfarfodydd ar y cyd
- adolygu cynlluniau gwaith
- prosiectau ar y cyd yn canolbwyntio ar agwedd benodol ar ddysgu iaith
- adnabod y gwahaniaethau a'r tebygrwydd mewn dysgu ac addysgu
- sefydlu fformat cyffredin ar gyfer gweithgareddau, megis logiau sillafu, cymryd nodiadau a chofnodion o ddarllen annibynnol
- arddangosfeydd llythrennedd triphlyg ar y cyd o amgylch yr ysgol yn dangos geiriau allweddol, cysyniadau gramadegol ac arwyddion
- rhannu ac addasu adnoddau, e.e. rhestr gyffredin o gemau iaith
- mabwysiadu polisiau cyffredin ar gyfer cyflwyno, marcio, codi ymwybyddiaeth o lythrennedd triphlyg, datblygu meddwl, asesu ar gyfer dysgu
- arsylwi gwersi a rhannu arfer da ar draws ieithoedd
- sicrhau bod polisiau llythrennedd yr ysgol gyfan yn adlewyrchu strategaethau llythrennedd triphlyg.

Gweithgareddau gellir eu hystyried ym mhob iaith:

- defnyddio fformat cyffredin ar draws ieithoedd ar gyfer ysgrifennu dan arweiniad, ailddrafftio, byrddau stori, gwneud cyflwyniadau a fframiau ysgrifennu
- cadw log sillafu neu wneud rhestrau o eiriau yn yr un ffordd ar draws gwahanol ieithoedd, e.e. defnyddio cod lliw ar gyfer cenedl enwau, rhannau ymadrodd ac ati
- sefydlu geiriau allweddol ar draws ieithoedd a'u defnyddio mewn gwersi fel y bo'n briodol

- gwneud nodiadau, gan ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil, dulliau ymchwil eraill a sgiliau geiriadurol
- defnyddio dull cyffredin o gadw cofnodion ac adolygiadau ar gyfer darllen yn annibynnol
- defnyddio strategaethau cyffredin i ddysgu sillafiadau ar y cof ar draws ieithoedd, e.e. edrych, dweud, cuddio, ysgrifennu, gwirio
- canfod cytrasau a gwneud cymariaethau ar draws ieithoedd yn dod yn rhan sefydlog o ddysgu iaith ac annog trafodaeth ynglŷn â ffurf a swyddogaeth iaith
- gweithgareddau darllen sy'n darparu cyfleoedd i greu cysylltiadau, e.e. canolbwyntio ar themâu, pynciau neu fathau o destun cysylltiedig
- defnyddio adnoddau cyffredin megis posterï llythrennedd triphlyg a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (ar gael hefyd yn www.gcad-cymru.org.uk)
- datblygu themâu cyffredin megis dweud stori, bywgraffiad, enwogion, ffilmiau, creu cynhyrchiadau drama amlieithog, cyd-destunau trawsgwricwlaidd, y newyddion a'r cyfryngau mewn gwahanol ieithoedd.

Cymharu testunau

Chwilio am rysáit ar gyfer bwyd nodweddiadol sy'n gysylltiedig â diwylliant yr iaith sy'n cael ei hastudio, e.e. Sgoniau, *Bara brith*, *Tarte aux pommes*, *Sachertorte*.

Gall dysgwyr:

- nodi'r gwahaniaethau a'r pethau tebyg yn iaith y cyfarwyddiadau
- defnyddio gwahanol strategaethau i weithio allan beth yw ystyr geiriau
- ysgrifennu'r ryseitiau mewn ieithoedd gwahanol
- gwneud y ryseitiau.

Gallai gwneud gwaith tebyg gyda hysbysebion, taflenni, chwedlau traddodiadol ac ati.

Gall dull cydgysylltiedig gyda ffocws i ddelio gyda materion llythrennedd penodol gael effaith uniongyrchol a gellir ei atgynhyrchu gyda dysgwyr eraill.

Gwella llythrennedd ar draws ieithoedd

Penderfynodd ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ddelio gyda phroblemau llythrennedd rhai dysgwyr Blwyddyn 7 llai galluog trwy strategaeth llythrennedd triphlyg sydd â ffocws. Roedd staff anghenion addysgol arbennig a'r cydgysylltydd pontio yn ogystal â thair adran iaith, ynghyd â dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr yn cyfrannu at gynllunio. Cafwyd HMS yn canolbwyntio ar lythrennedd i'r ysgol gyfan a gweithiodd yr adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern ar y cyd gyda'r staff anghenion addysgol arbennig a gwirfoddolwyr o'r chweched dosbarth. Dadansoddwyd cynlluniau gwaith i amlygu nodweddion a strategaethau cyffredin fel bod modd dysgu gramadeg mewn ffordd wirioneddol drawsgwricwlaidd. Roedd strategaethau'n cynnwys:

- defnyddio hunanasesiad dysgwyr a gweithgareddau adfyfrio ym mhob iaith
- datblygu strategaethau cyffredin ar gyfer darllen, sillafu a dysgu
- cyfleoedd i ddysgwyr drafod iaith
- creu cyfleoedd amlwg i gymharu ieithoedd a defnyddio gwybodaeth y dysgwyr o un iaith i gefnogi sgiliau mewn iaith arall
- defnyddio termau cyffredin ar gyfer gramadeg
- addysgu gramadeg trwy ddatblygu sgiliau meddwl.

Daeth yr adran Saesneg yn fwy ymwybodol o effaith 'gwaith ar lefel gair a brawddeg' gyda'r dysgwyr a datblygwyd mwy o arferion yn null ieithoedd tramor modern i ddatblygu lefelau llythrennedd y dysgwyr yn Saesneg. Hefyd anogwyd y dysgwyr gan yr athrawon i roi enghreifftiau o Gymraeg ac iaith dramor fodern i gefnogi eu dealltwriaeth. Yn y gwersi Ffrangeg ac Almaeneg, trafododd y dysgwyr sut roedd eu gramadeg yn debyg i ramadeg Cymraeg a defnyddio eu sgiliau o ddelio â thestunau Saesneg i ddysgu geirfa newydd trwy waith testun mewn ieithoedd tramor modern. Yn Gymraeg, roedd creu cysylltiadau gydag ieithoedd tramor modern a Saesneg yn ogystal â chyflwyno gweithgareddau cyffredin yn gwella cymhelliant y dysgwyr a'u hymwybyddiaeth o'r ffordd mae iaith yn gweithio.

O ganlyniad i werth llythrennedd ym mhob iaith, penderfynwyd ymestyn y rhaglen ar draws yr holl ystod gallu. Mae'r prosiect wedi gosod y sylfeini ar gyfer dull gweithredu trawsgwricwlaidd effeithiol a thanlinellodd y cyfraniad sylweddol gall Cymraeg ac ieithoedd tramor modern eu gwneud i roi sylw i wendidau llythrennedd mewn Saesneg. Bu ymateb cadarnhaol iawn gan staff y tair adran sy'n teimlo eu bod wedi cael budd mawr o weithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau cyffredin.

Gall defnyddio'r un fath o weithgareddau a strategaethau asesu ar draws ieithoedd gefnogi cyflawniad dysgwyr mewn llythrennedd yn ogystal â chynyddu eu cymhelliad.

Addysgu, dysgu ac asesu

Gyda'r nod o wella llythrennedd ar draws ieithoedd, roedd grŵp o athrawon Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern wedi cwrdd i drafod datblygu, rhannu a safoni arfer da. Gan ganolbwyntio ar ddysgwyr Blwyddyn 7, y cam cyntaf oedd cynnal cyfres o arsylwadau o wersi ei gilydd. Cytunwyd ar hynny a'i gynllunio gyda'r uwch dîm rheoli. Ar sail yr arsylwadau hynny, a nododd lawer o arfer da ar draws yr ieithoedd, cytunwyd ar unwaith ar rai strategaethau ar y cyd:

- defnyddio gemau ym mhob iaith
- defnyddio 'dwy seren a dymuniad' wrth asesu cyfoedion
- defnyddio termau gramadeg cyffredin
- gwneud yn glir beth sy'n digwydd mewn ieithoedd eraill.

Yn y tymor hirach y nodau oedd:

- defnyddio meini prawf llwyddiant fel strategaeth benodol ar gyfer asesu ar gyfer dysgu
- bod athrawon iaith yn ymgorffori'r strategaethau a'r technegau newydd yn eu gwaith
- dechrau cynnal ymweliadau cyswllt i ysgolion bwydo
- dod ynghyd i ddrafftio polisi llythrennedd yr ysgol gyfan
- gwerthuso effaith, gan gynnwys defnyddio holiadur dysgwyr.

Y flwyddyn wedyn, ar ôl rownd arall o arsylwadau a thrafodaethau, roedd y canlyniadau yn gadarnhaol, gydag arfer da cyson ar draws y tair adran. Roedd yr adborth o'r holiaduron yn dangos bod y dysgwyr yn gweld y cysondeb yn ffactor cynhaliol ac roedden nhw'n mwynhau'r ffocws cyffredin ar waith grŵp ac asesu cyfoedion a hunanasesu. Y camau nesaf oedd cynnwys cyflwyniad â ffocws i'r strategaethau ym Blwyddyn 8 a 9.

Gall digwyddiad un-tro ysbrydoli dysgwyr i wneud cysylltiadau ac i ddefnyddio eu sgiliau iaith a sgiliau creadigol eraill mewn cyd-destun gwahanol ac ysgogol.

Gwneud llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn hwyl

Llwyddodd ysgol gyfun ddwyieithog i gael cyllid i gynnal prosiect ar draws yr adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern yn ogystal â chelf a thechnoleg gwybodaeth. Defnyddiwyd yr arian i dalu i gwmni theatr Ffrengig berfformio *Les Trois Mousquetaires*. Gwelodd Blynnyddoedd 7, 8 a 9 y ddrama yn Ffrangeg. Roedd pob adran yn bwriadu gwneud gwaith dilynol yn gysylltiedig â'r ddrama.

- Yn Ffrangeg ac Almaeneg, gwnaeth dysgwyr Blwyddyn 7 gyflwyniadau am y cymeriadau; ysgrifennodd dysgwyr Blwyddyn 8 ddisgrifiadau o'r gwisgoedd; ysgrifennodd dysgwyr Blwyddyn 9 feirniadaeth o'r ddrama yn yr amser gorffennol.
- Yn y Gymraeg a'r Saesneg, ysgrifennodd y dysgwyr adolygiadau mwy estynedig a chymhleth o'r ddrama.
- Dyluniodd y ac adeiladodd dysgwyr celf 'fyrddau sbecian' glan y môr.
- Mewn technoleg gwybodaeth, defnyddiodd y dysgwyr feddalwedd i greu byrddau stori o wahanol olygfeydd y ddrama.

Dywedodd yr athrawon bod y canlyniadau ar gyfer yr holl weithgareddau yn drawiadol a bod pawb wedi mwynhau'r prosiect cyfan yn fawr iawn.

Gall y posteri llythrennedd triphlyg, a ddarparwyd i bob ysgol uwchradd gan Lywodraeth Cymru, gefnogi gweithio gyda'i gilydd gan ganolbwyntio ar nodweddion penodol iaith yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern (Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg). Maen nhw'n adnoddau lliwgar gellid eu defnyddio mewn fformat A4 (sydd ar gael ar GCaD Cymru) ar gyfer gwaith grŵp neu fel ffocws yn y dosbarth.

Defnyddio'r posteri llythrennedd triphlyg

Mae'r adrannau iaith mewn ysgol cyfrwng Saesneg yng ngogledd Cymru yn defnyddio'r posteri llythrennedd triphlyg fel ffocws i weithio gyda'i gilydd ac i helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau ar draws eu hieithoedd. Dechreuodd yr adran Ffrangeg gyda'r poster 'Pa iaith?', sy'n dangos cytrasau, berfau, rhifau a geirfa arall yn y tair iaith.

Dechreuwyd trwy drafod yr wyddor mewn Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg – pa lythrennau oedd yr un fath, pa rai oedd yn wahanol. Roedd y dysgwyr yn sillafu geiriau yn Gymraeg, Saesneg a Ffrangeg ac yn canolbwyntio ar ynganiad a'r cyswllt rhwng sain a sillafiad trwy eu darllen yn uchel. Defnyddiwyd y dull 'Edrych-Dweud-Cuddio-Ysgrifennu-Gwiro' sy'n gyfarwydd iddyn nhw yn Saesneg i gefnogi'r dasg o ddysgu sillafu yn Gymraeg a Ffrangeg. Nododd y dysgwyr unrhyw debygrwydd rhwng y geiriau Ffrangeg â geiriau Cymraeg a Saesneg, patrymau mewn rhifau a dyddiau'r wythnos, a berfenwau yn y tair iaith. Roedden nhw'n gweithio mewn parau i roi'r geiriau mewn categorïau a gofynnwyd i'r rhai a oedd yn cwblhau'r dasg yn gyflym a allen nhw feddwl am eiriau eraill oedd yn gyfarwydd iddyn nhw a defnyddio geiriadur i chwilio am fwy.

Roedden nhw'n chwarae gemau geiriau gan ddefnyddio'r tair iaith, e.e. hangman, loto geiriau, un dyn bach ar ôl, dominos a gemau cychwyn eraill. Yna defnyddiodd y dysgwyr eu sgiliau llythrennedd triphlyg at ddiben penodol trwy greu posterï yn disgrifio digwyddiad i dwristiaid gan nodi'r achlysur, y dyddiad, yr amser, y pris, y lle a'r gweithgaredd ym mhob un o'r tair iaith. Cynhaliwyd gweithgareddau tebyg mewn Cymraeg, Saesneg ac Almaeneg.

Defnyddiwyd y poster 'Cyswllt' i helpu dysgwyr i greu ffrâm ysgrifennu amlieithog er mwyn llunio brawddegau estynedig yn eu tair iaith. Gan ddefnyddio'r poster 'Geiriau holi', gweithiodd y dysgwyr mewn parau i lunio cwestiynau yn seiliedig ar y pwnc roedden nhw'n gweithio arno, a hyn hefyd yn y tair iaith.

Mae'r camau nesaf yn cynnwys cynyddu'r themâu trawsgwricwlaidd gyda ffocws ar lythrennedd triphlyg a gweithio ar draws yr adrannau i gytuno ar dermau gramadegol cyffredin. Trafododd y staff a ddylai'r posteri gael eu harddangos yn barhaol yn y dosbarth, ond penderfynwyd byddai'n fwy effeithiol eu defnyddio i ganolbwyntio ar nodweddion ieithyddol penodol fel roedden nhw'n codi.

Cysyllteiriau **Mots de Liaison** **Linking Words**

Gwnewch eich brawddegau'n hirach ac yn fwy ddiddorol - defnyddiwch gysyllteiriau!
Make your sentences longer and more interesting - use linking words!

Er enghraifft / For example

Rydwi i'n mynd i'r sinema oherwydd rydw i'n hoffi gwylio ffilmiau newydd.	Je vais au cinéma parce que regarder les nombreux films.	I go to the cinema because I like to watch new films.
Yn gyntaf , rydw i'n mynd i'r caffi gyda fy frindiau.	En premier , je vais au café avec mes amis.	First , I'm going to the café with my friends.

Cymraeg	Français	English
gyda	avec	with
oherwydd / achos / gan fod	par	because / since
a / ac	et	and
ond	mais	but
neu	ou	or
ble	où	where
oherwydd / achos / gan fod	parce que	because
yna	puis	then
pryd / pan	quand	when
prwy / sydd	qu'il	who / which
yn gyntaf	d'abord	first
wedyn	ensuite	afterwards
oherwydd / o achos / gan fod	à cause de	because of
o ganlyniad / felly	donc	therefore / so

Cysyllteiriau **Mots de Liaison** **Linking Words**

Pa iaith? **Welche Sprache?** **Which language?**

Meddylwch! Think!
Both sets of posters try to bring us together by 'reunited' (reunited)
What are the similarities and differences between languages?

canu Mai Architekt zoo blue
John mèl Easter Montag
Pasg to ride blau Johannes
May to sing Llundain Cymru
sw Wales Monday pensaer
Honig marchogaeth singen Zoo
architect reiten honey
Ioan Ostern Dydd Llun
London Mai glas

Pa iaith? **Welche Sprache?** **Which language?**

Pa iaith? **Quelle Langue?** **Which Language?**

Meddylwch! Think!
Both sets of posters try to bring us together by 'reunited' (reunited)
What are the similarities and differences between languages?

Mai honey blue
Londres Cymru
lundi Jean May to play
Easter bleu miel London
mai twenty three vingt-trois jouer
John Pasg Dydd Llun Wales
Monday glas Pâques
Pays de Galles Llundain
mèl chwarae dau ddeg tri

Pa iaith? **Quelle Langue?** **Which Language?**

Cysyllteiriau **Conjunciones** **Linking Words**

Gwnewch eich brawddegau'n hirach ac yn fwy ddiddorol - defnyddiwch gysyllteiriau!
Make your sentences longer and more interesting - use linking words!

Er enghraifft / For example

Rydw i'n mynd i'r sinema oherwydd rydw i'n hoffi gwylio ffilmiau newydd.	Voy al cine porque me gusta ver las películas nuevas.	I go to the cinema because I like to watch new films.
Yn gyntaf , rydw i'n mynd i'r caffi gyda fy frindiau.	Primero , voy al café con mis amigos.	First , I'm going to the café with my friends.

Cymraeg	Español	English
gyda	con	with
oherwydd / achos / gan fod	porque	because / since
a / ac	y (e)	and
ond	pero	but
neu	o (u)	or
ble	dónde	where
yna	entonces / luego	then
pryd / pan	cundo	when
prwy / sydd	que	who / which
yn gyntaf	primero	first
wedyn	después	afterwards
oherwydd / o achos / gan fod	debido a / a causa de	because of
o ganlyniad / felly	así que	therefore / so

Cysyllteiriau **Conjunciones** **Linking Words**

Llythrennedd ym mhob iaith

Gall edrych ar ystod eang o ieithoedd y byd trwy weithgareddau ymwybyddiaeth iaith gefnogi datblygu dealltwriaeth rhyngddiwylliannol yn ogystal â dealltwriaeth o'r ffordd mae ieithoedd yn gweithio. Mae dathlu ieithoedd eraill mae dysgwyr yn dod â nhw i'r dosbarth hefyd yn cefnogi gwerthfawrogiad o siaradwyr ieithoedd eraill ac yn codi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill, gwahanol draddodiadau a ffyrdd o fyw. Gall ffocws ar wahanol ieithoedd y byd gefnogi cysylltiadau gyda meysydd eraill o'r cwricwlwm yn ogystal ag ategu unrhyw bartneriaethau a phrosiectau rhyngwladol sydd gan yr ysgolion. I siaradwyr ieithoedd eraill, mae darparu cyfleoedd iddyn nhw ddatblygu sgiliau llythrennedd yn eu hiaith eu hunain yn cefnogi llythrennedd ar draws eu meysydd dysgu eraill.

Gweithgareddau ar gyfer y dosbarth cynradd

Dyma rai gwahanol weithgareddau gellid eu defnyddio gyda dysgwyr ifanc. Bwriedir rhai ar gyfer defnydd achlysurol, ac mae'r lleill wedi eu cynllunio fel rhan o brofiad iaith cyffredinol dysgwyr, naill ai dros gyfnod o amser neu fel digwyddiad un-tro. Ar gyfer dysgwyr gydag anghenion ychwanegol, gall llawer o'r gweithgareddau hyn gynnal datblygiad eu sgiliau cyfathrebu a darparu cyd-destun ehangach iddyn nhw ddatblygu eu profiad iaith. Dylai ysgolion hefyd ddatblygu gweithgareddau i adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth dysgwyr sy'n siarad ieithoedd eraill yn y cartref a lle bo modd, cefnogi datblygu llythrennedd yn yr iaith honno.

Gweithgareddau dosbarth gellir eu hystyried ym mhob iaith:

- ateb y gofrestr mewn gwahanol ieithoedd gyda chyfarchion o bob rhan o'r byd
- cymharu enwau'r dysgwyr mewn gwahanol ieithoedd i chwilio am debygrwydd
- gwneud gwaith celf neu arddangosfeydd gan ddefnyddio ieithoedd gyda sgriptiau eraill, e.e. posteri croeso
- canfod pa ieithoedd sy'n cael eu siarad mewn gwahanol wledydd, faint o bobl sy'n siarad gwahanol ieithoedd a chyflwyno gwybodaeth mewn graffiau neu siartiau
- cyflwyno cerddoriaeth a chaneuon o ddiwylliannau eraill ac mewn ieithoedd eraill
- gwneud cyflwyniadau i'r ysgol gyfan i ddathlu gwahanol ieithoedd

- dysgu cyfrif i ddeg mewn gwahanol ieithoedd, cymharu rhifau, dyddiau, misoedd y flwyddyn mewn gwahanol ieithoedd a gwneud calendrau amlieithog
- edrych ar darddiad geiriau, e.e. dyddiau'r wythnos, neu eiriau sydd wedi eu 'benthyca' o ieithoedd eraill
- dysgu am wahanol ffurfiau o gyfathrebu, gan gynnwys iaith arwyddion, pictogramau a hieroglyffigau
- defnyddio adnoddau ar-lein i ddysgu iaith syml megis cyfarchion a chyflwyniadau
- sefydlu ardal ieithoedd yn y dosbarth neu'r llyfrgell, yn cynnwys geiriaduron lluniau, llyfrau am ieithoedd, storïau mewn ieithoedd eraill
- gwahodd siaradwyr ieithoedd eraill i'r ysgol i roi gwersi rhagflas
- cynllunio gweithgareddau ysgol gyfan i ddathlu ieithoedd.



Roedd prosiect ar y cyd gyda'r brifysgol yn rhoi cyfle i ddysgwyr ifanc drwytho eu hunain mewn ieithoedd a diwylliannau eraill yn ogystal â sicrhau gwelliant gwirioneddol yn eu Cymraeg a'u Saesneg.

Byd rhithwir mewn Cymraeg, Saesneg, Groeg a Hwngareg

Cymerodd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ran mewn prosiect gyda phrifysgol yng Nghymru a phartneriaid rhyngwladol eraill i dreialu amgylchedd dysgu ieithoedd rhithwir ar-lein. Defnyddiwyd byd rhithwir 3-D a ddyluniwyd er mwyn i ddysgwyr allu ymarfer eu hieithoedd tramor a dysgu oddi wrthyn nhw gyda dysgwyr mewn gwledydd eraill trwy ddefnyddio avatars. Saesneg, Groeg a Hwngareg oedd yr ieithoedd ffocws; ond manteisiodd yr ysgol ar y cyfle i gynnwys sgiliau Cymraeg hefyd.

Bu ymateb y dysgwyr a'r athrawon i'r prosiect yn gadarnhaol iawn. Mae'n hyrwyddo sgiliau ieithyddol mewn ffordd ddifygythiad wrth i'r ieithoedd gael eu cyflwyno trwy gyfrwng sy'n gyfarwydd i'r dysgwyr.

Gosodwyd tasgau i'r dysgwyr, megis siopa yn yr archfarchnad neu mewn siop ddillad. Tasgau bwlch gwybodaeth yw'r rhain felly mae'n rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio'r iaith maen nhw wedi ei dysgu i gael yr wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r dasg. Mae'r dysgwyr a gymerodd ran ym Mlwyddyn 5 a 6 wedi datblygu empathi gyda siaradwyr Saesneg fel iaith dramor. Maen nhw wedi dod yn fwy rhugl yn y Gymraeg ac wedi meithrin gwerthfawrogiad dadansoddol o ieithoedd yn ogystal â diddordeb mewn tarddiad geiriau. Roedd y dysgwyr yn gallu gweld cysylltiadau rhwng cystrawen a gramadeg yn Gymraeg, Saesneg a Groeg. Roedden nhw'n mwynhau cymharu patrymau brawddegau yn Gymraeg, Saesneg, Groeg a Hwngareg.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, gall edrych ar ieithoedd heblaw'r rhai maen nhw'n eu dysgu gefnogi persbectif byd-eang y dysgwyr a rhoi mewnwelediad iddyn nhw ynglŷn â'r ffordd mae ieithoedd eraill yn gweithio. Gall hyn eu hysbrydoli i astudio ieithoedd eraill yn ddiweddarach mewn bywyd. I lawer o'r dysgwyr, nid yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith yr aelwyd. Gall gweithgareddau sy'n defnyddio'r ieithoedd cartref eraill godi hunan-barch a galluogi dysgwyr eraill i amgyffred gwerth gwybod llawer o ieithoedd.

Wrth i'r dysgwyr hyn ddatblygu drwy'r ysgol, dylid manteisio ar gyfleoedd yn yr ysgol a thu allan i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd yn iaith yr aelwyd yn ogystal ag achub y cyfle iddyn nhw ennill cymhwyster yn yr iaith honno.

Gall gweithgareddau ar gyfer ysgolion uwchradd gynnwys:

- digwyddiadau yn dathlu ieithoedd
- gwahodd siaradwyr ieithoedd eraill i roi gwersi rhagflas
- cyfraniad gan rieni/gofalwyr sy'n siarad ieithoedd eraill
- clybiau iaith amser cinio
- dysgu gwahanol ieithoedd y byd ar-lein
- darparu llyfrau darllen mewn gwahanol ieithoedd
- creu ardal iaith yn y ganolfan adnoddau ar gyfer pob dysgwr, a hefyd lle gall siaradwyr ieithoedd eraill ddod o hyd i adnoddau yn eu hiaith eu hunain, e.e. llyfrau darllen, geiriaduron a chylchgronau
- sefydlu cysylltiadau e-bost gydag ysgolion tramor yn ogystal ag ymestyn cysylltiadau a phrosiectau rhyngwladol sy'n bodoli'n barod.

Mae un ysgol uwchradd yn cynnig cefnogaeth i siaradwyr ieithoedd eraill trwy gylch darllen ac mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr rannu eu hiaith eu hunain gyda phobl eraill.

Cylch darllen amlieithog

Mae ysgol gyfun cyfrwng Saesneg wedi sefydlu cylch darllen amlieithog sy'n digwydd unwaith yr wythnos amser cinio. Mae dysgwyr o Flwyddyn 7 ac 8 yn bennaf a gwirfoddolwyr o'r chweched dosbarth yn cwrdd i ddarllen llyfrau yn iaith y cartref, chwarae gemau a chymdeithasu. Mae dysgwyr naill ai'n darllen ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau neu mentor sy'n aml yn wirfoddolwr o'r chweched dosbarth. Maen nhw hefyd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol fel llunio llyfrau bach am y byd, dylunio posteri i hysbysebu gŵyl fwyd amlddiwylliantol a llunio cyflwyniadau byr am iaith yr aelwyd neu agweddau ar eu diwylliant. Mae dysgwyr o'r cylch darllen hefyd wedi cyflwyno neges heddwch ac ewyllys da yr Urdd yn iaith eu haelwyd mewn gwasanaethau blynyddol.

Mae posteri a thaflenni yn hysbysebu'r cylch darllen amlieithog yn cael eu harddangos drwy'r ysgol ac mae'n amlwg bod y prosiect wedi codi proffil yr ieithoedd niferus a siaredir yn yr ysgol. Mae'r llyfrau sydd wedi cael eu prynu neu eu cyfrannu i'r cylch yn cael eu cadw yng nghanolfan adnoddau dysgu'r ysgol. Yn ôl y staff mae'r dysgwyr hefyd yn darllen y llyfrau yn ystod eu hamser rhydd. Mae trefnydd y prosiect yn bwriadu defnyddio moodle yr ysgol i roi testunau, gemau a gweithgareddau eraill ar-lein i'r dysgwyr. Mae'r cylch darllen hefyd wedi cael cyhoeddusrwydd yn ysgolion cynradd y dalgylch ac ymhlith rhieni a gofalgwyr, sy'n gefnogol iawn o'r fenter. Darparu'r llyfrau darllen a lle i'w darllen yw'r unig bethau sydd eu hangen i ddynwared y prosiect hwn.

Gyda'r ffocws penodol ar ddarllen mewn cyd-destun cymdeithasol, mae'r prosiect yn llwyddo i dargedu ystyriaethau allweddol llythrennedd a symbylu dysgwyr i ddarllen yn annibynnol gan godi proffil ieithoedd cymunedol a hunan-barch y dysgwyr hynny ar yr un pryd. Mae'r ffocws hwn ar lythrennedd yn golygu bod dysgwyr yn darllen llyfrau sydd ar gael yn iaith yr aelwyd, gan ddatblygu sgiliau y gallan nhw eu defnyddio yn Gymraeg, Saesneg a'u hiaith dramor modern. Mae agwedd y dysgwyr wedi bod yn gadarnhol iawn a'u sylwadau wedi cynnwys y rhai yma.

Mae'n hwyl!

Mae'n braf dod o hyd i lawer o bobl eraill sydd â llawer o ieithoedd eraill.

Rwy'n mwynhau dod i helpu'r dysgwyr iau i ddarllen a gwerthfawrogi iaith eu cartref trwy storïau.

Rwy'n dod am fy mod eisiau gadael i lwyth o bobl eraill wybod am Tsieinëeg.

Defnyddio termau cyffredin

Ym mhob iaith mae dysgwyr yn dod ar draws yr un cysyniadau, dro ar ôl tro, yr un gofynion ac, yn aml, yr un rheolau gramadegol neu rai digon tebyg. Gall defnyddio'r un derminoleg ar gyfer termau gramadegol, sillafu, termau iaith a sgiliau sicrhau cysondeb ar draws ieithoedd a chynnig cyfleoedd i adeiladu ar wybodaeth flaenorol mewn ieithoedd eraill ac atgyfnerthu cysyniadau allweddol.

Mae'r rhestr termau (Atodiad C) yn rhestru rhai o'r prif dermau gall athrawon eu defnyddio, gyda diffiniadau syml gellir eu hymestyn a'u henghreiffio ar gyfer dysgwyr, yn dibynnu ar y cyd-destun dysgu.

Mae'r diffiniadau wedi cael eu llunio i adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir ar draws Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern. Gan hynny cynhwysir rhai termau nad ydyn nhw'n briodol i bob iaith, megis treigladau.

Dylai athrawon pob iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ystyried sut gallan nhw ddefnyddio'r eirfa hon a phenderfynu pa gamau gellir eu cymryd i sicrhau cysondeb ar draws yr holl ieithoedd.

Dull gweithredu cyffredin ar gyfer gramadeg

Mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, lle mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dod o gefndir Saesneg, gwelodd yr adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern yr angen i wella cywirdeb ar draws yr ieithoedd. Penderfynwyd mabwysiadu dull gweithredu cyffredin ar gyfer gramadeg gan gynnwys defnydd cyffredin a chyson o dermau gramadegol. Roedden nhw wedi gweld bod dysgwyr yn cael anhawster trosi elfennau ieithyddol o un uned waith i uned arall yn Gymraeg a Ffrangeg. Roedd angen i'r dysgwyr weld bod elfennau ieithyddol tebyg iawn yn y tair iaith a gall un iaith gefnogi eu dealltwriaeth o'r ieithoedd eraill. Fel man cychwyn, edrychodd yr athrawon ar gynlluniau gwaith y tair adran i weld pa bryd roedd gwahanol elfennau ieithyddol yn cael eu cyflwyno. Sylweddolwyd ar unwaith bod angen edrych ar yr elfennau gramadegol mwyaf sylfaenol mewn Cymraeg a Ffrangeg i sicrhau bod y dysgwyr yn deall. Penderfynwyd y bydden nhw'n cydgysylltu â'i gilydd wrth gyflwyno rhai o'r prif bwyntiau gramadegol a gwnaeth bob adran addasu ei chynlluniau gwaith i adlewyrchu hynny. Cytunwyd i ganolbwyntio ar elfennau ieithyddol megis berfau neu ansoddeiriau. I wella ymwybyddiaeth y dysgwyr defnyddiwyd TGCh a sgriniau o amgylch yr ysgol i arddangos nodweddion yr iaith ar ffurf animeiddiad.

Gwthio'r cwch i'r dŵr

Mae'r ysgolion sydd wedi datblygu'r prosiectau a strategaethau llythrennedd triphlyg wedi gweld bod buddion amlwg o ran llythrennedd dysgwyr ym mhob iaith. Fel cam cyntaf mae angen i athrawon wybod beth sy'n digwydd yn y dosbarthiadau iaith eraill, pa sgiliau mae dysgwyr yn datblygu yn eu gwahanol wersi iaith a beth mae dysgwyr yn gallu ei wneud yn barod waeth pa iaith maen nhw'n ei defnyddio.

Mewn un ysgol daeth grŵp bach o athrawon at ei gilydd i weld sut gallen nhw weithio'n agosach ar draws ieithoedd.

Gwthio'r cwch i'r dŵr yng Nghyfnod Allweddol 3

Yn nhymor yr haf penderfynodd grŵp o athrawon o adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ffurfio grŵp astudio gyda'r bwriad i:

- ganfod pa sgiliau a gweithgareddau sy'n gyffredin ar draws yr ieithoedd
- creu adnoddau i'w rhannu
- treialu prosiectau rhannu addysgu gyda'r nod o wella llythrennedd dysgwyr.

Fel cam cyntaf cytunwyd i lunio cofnod ar y cyd ar gyfer sillafu a darllen, dogfen strategaethau sillafu a thaflenni geirfa gyda'r bwriad o annog dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng yr ieithoedd. Roedd y rhain yn cael eu cynnwys yn llyfr adnodd dysgwyr o fis Medi yn ogystal â chael eu harddangos yn y dosbarthiadau iaith. Datblygwyd ystod o wersi a gweithgareddau cychwynnol yn canolbwyntio ar ramadeg i'w defnyddio ym mhob iaith a dewiswyd thema pêl-droed 'Ieithoedd Unedig' fel ffordd o gysylltu pob iaith gyda'i gilydd.

Hefyd, creuodd dau athro brosiect dweud storïau a'i dreialu gyda dysgwyr Blwyddyn 9 mewn Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg. Yn y prosiect hwn roedd her ychwanegol yn y ffaith ei fod yn seiliedig ar TGCh ac yn cael y dysgwyr i arbrofi gyda meddalwedd sgrin gyffwrdd. Roedden nhw'n ailddweud storïau adnabyddus yn eu geiriau eu hunain ac yn astudio technegau ysgrifennu stori, megis cymeriadu a phlot, trwy gyfrwng Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg. Roedden nhw'n mwynhau'r cyfle i ddefnyddio TGCh ac yn gweld rhannu geirfa gyffredin yn fuddiol.

Mae prosiectau bychan annibynnol a gwersi gramadegol cychwynnol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i'w defnyddio o fis Medi nesaf.

Roedd gan ysgol arall ffocws ar godi lefelau llythrennedd gan ganolbwyntio ar ramadeg, sillafu a strategaethau dysgu iaith.

Dechrau gweithio gyda'i gilydd

Dod at ei gilydd

Cafodd pennaeth ieithoedd tramor modern mewn ysgol gyfun cyfrwng Saesneg fechan ei ysbrydoli gyntaf gan y syniad bod astudio iaith dramor yn gallu cefnogi llythrennedd dysgwyr mewn Cymraeg a Saesneg. Roedd wedi cwrdd â phennaeth yr adran Gymraeg a phennaeth yr adran Saesneg i drafod dulliau llythrennedd triphlyg ar gyfer gramadeg, strategaethau dysgu iaith, a sillafu ac atalnodi.

Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yma

Dechreuwyd trwy adolygu eu rhestr o dermau gramadeg er mwyn cynnwys enghreifftiau o dermau gramadeg yn Gymraeg, Saesneg a Ffrangeg. Edrychon nhw ar gynlluniau gwaith ei gilydd i drafod pa bryd ac ym mha ffordd y dysgir gramadeg. Lluniodd pob un o'r athrawon restr o weithgareddau a gemau maen nhw'n eu defnyddio i ymarfer iaith ac i gadarnhau gramadeg a chytunwyd i dreialu syniadau 'newydd'.

Y camau nesaf

Mae'r tair adran wedi cytuno i ddatblygu ystod o weithgareddau, er enghraifft polisi marcio cyffredin, gweithgareddau traws adrannol yn seiliedig ar ffilmiau a llyfrau, a themâu traws adrannol megis hunangofiannau.

Adfywio'r weledigaeth

Nod yr athrawon yw y bydd canlyniadau'r dull llythrennedd triphlyg yn:

- codi lefelau llythrennedd drwy'r ysgol
- datblygu dulliau cyson o addysgu gramadeg
- datblygu dysgu ac addysgu traws adrannol
- annog dysgwyr i ddefnyddio iaith achlysurol yn amlach yn Gymraeg a Ffrangeg.

Rhestr wirio ar gyfer llythrennedd triphlyg

Mae'r rhestr wirio ganlynol yn cynnig nifer o gwestiynau gall ysgolion, adrannau iaith ac athrawon eu gofyn er mwyn datblygu gweithgareddau llythrennedd triphlyg a strategaethau ar y cyd i greu cysylltiadau rhwng ieithoedd yn eu hysgolion eu hunain.

Pob athro/athrawes a chydgyssylltydd llythrennedd

- Ydyn ni'n ymwybodol o'r gofynion tebyg sydd ar draws Gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg ac ieithoedd tramor modern?
- Sut gallwn ni ddefnyddio'r gridiau sgiliau iaith yn y canllawiau hyn?
- Ydyn ni eisoes yn gwneud unrhyw gysylltiadau ar draws ieithoedd?
- Oes unrhyw gysylltiadau rhwng cynlluniau gwaith ieithoedd?
- Sut gallwn ni ddatblygu gweithgareddau ar draws ieithoedd?
- Ydyn ni'n defnyddio termau cyffredin ar gyfer gramadeg a nodweddion eraill iaith?
- Sut gallwn ni ddefnyddio'r rhestr termau?
- Sut gallwn ni ehangu profiadau a sgiliau dysgu iaith ein dysgwyr?
- Ydyn ni'n darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ymwybyddiaeth iaith?
- Pa adnoddau sydd gennyn ni yn rhwydd wrth law i gefnogi llythrennedd triphlyg?
- Beth sydd angen i ni ei ddatblygu?
- Sut gallwn ni gael dysgwyr i gymryd rhan mewn llythrennedd triphlyg a datblygu eu hannibyniaeth?
- Pa effaith a all y cysylltiadau hyn ei chael mewn rhannau eraill o'r ysgol?
- Pa gefnogaeth bellach sydd ei hangen i weithredu strategaethau llythrennedd triphlyg?

Athrawon ysgolion uwchradd Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg ac ieithoedd tramor modern

- Sut ydyn ni'n adeiladu ar ddysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 2?
- Ydyn ni'n ymwybodol o beth sy'n digwydd mewn adrannau iaith eraill?
- Sut gallwn ni gwrdd gyda'n gilydd i gynllunio?
- Sut gallai fod o fudd i ni arsylwi gwersi ein gilydd?
- Pa brif faterion llythrennedd sydd angen sylw gennyn ni?

- Sut gallwn ni ganolbwyntio ar y rhain ar draws yr ieithoedd?
- Pa weithgareddau allwn ni eu haddasu'n rhwydd er mwyn gwneud rhai cysylltiadau cychwynnol ar draws yr adrannau iaith?
- Pa feysydd fyddai orau i ni eu datblygu ymhellach?
- Beth yw'r ffordd orau i ni barhau i adolygu cynllunio dulliau gweithredu ar y cyd?
- Sut gallwn ni fesur yr effaith?

Atodiad A: Cyfnod Allweddol 2 –Sgiliau a dysgu iaith ar draws ieithoedd

Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ymhellach yn eu hiaith gyntaf ac weithiau'n defnyddio sgiliau gwahanol ar gyfer dysgu ail neu drydedd iaith. Ond mae pob dysgwr iaith yn datblygu ystod eang o sgiliau ac yn cymryd rhan yn yr ystod o weithgareddau sy'n gyffredin i bob un o'u hieithoedd. Dyma grynodeb o'r sgiliau a'r gweithgareddau sy'n gyffredin yn y Rhaglenni Astudio ar gyfer Cymraeg, Cymraeg ail iaith a Saesneg; y fframwaith anstatudol ar gyfer ieithoedd tramor modern; a Datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Llafaredd	Darlenn	Ysgrifennu
- gwrando a gwylio'n astud/yn ofalus - ymateb yn briodol i wahanol fathau o gyfathrebu - adnabod prif bwntiau - cyfathrebu'n glir ac yn hyderus - mynegi barn - addasu sgwrs yn ôl y gynulleidfa a'r pwrpas - gwneud defnydd priodol o amrywiaeth o batrymau brawddegol a geirfa - profi ac ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau a syniadau - siarad a gwrando yn unigol, mewn paru ac mewn grwpiau - defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau ac iaith, gan gynnwys TGCh - cyflwyno, siarad a pherfformio ar gyfer gwahanol bobl/amrywiaeth o gynulleidfaoedd - cynyddu hyder wrth ddefnyddio iaith trwy dynnu ar eu gwybodaeth o Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill a gwerthfawrogi gwahaniaethau a thebygrwydd rhyngddyn nhw.	- datblygu gwybodaeth ffonig a gramadegol, adnabod geiriau a dealltwriaeth gyd-destunol - datblygu'r gallu i ddarllen yn uchel yn rhugl, gyda chywirdeb, dealltwriaeth a mwynhad - darllen mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer gwahanol pwrpasau, gan gynnwys: cip ddarllen, llythrr ddarllen a chraff ddarllen, rhagfynegi, defnyddio cyd-destun a gwybodaeth o iaith - defnyddio ystod o strategaethau priodol i adalw gwybodaeth gan gynnwys TGCh - adalw a choladu gwybodaeth a syniadau o ystod o ffynonellau - defnyddio'r wybodaeth a gafwyd trwy ddarllen i ddatblygu eu dealltwriaeth o strwythur, geirfa, gramadeg ac atalnodi iaith a sut mae'r rhain yn gwneud yr ystyr yn gliriach - darllen yn unigol ac ar y cyd - profi ac ymateb i wahanol fathau o destunau.	- defnyddio ystod o strwythurau brawddegau - defnyddio atalnodi i egluro ystyr gan gynnwys yr atalnod llawn, ebychnod a gofynnod, atalnod, collnod, pwyntiau bwled a dyfynodau - dewis a defnyddio geirfa briodol - datblygu a defnyddio amrywiaeth o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir - drafftio a gwella eu gwaith, trwy ddefnyddio TGCh lle bo'n briodol - cyflwyno ysgrifennu'n briodol gan ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy a defnyddio nodweddion priodol gosodiad a chyflwyniad, gan gynnwys TGCh - ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ar gyfer gwahanol pwrpasau a chynulleidfaoedd.

Atodiad B: Cyfnod Allweddol 3 – Sgiliau a dysgu iaith ar draws ieithoedd

Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ymhellach yn eu hiaith gyntaf ac weithiau'n defnyddio sgiliau gwahanol ar gyfer dysgu ail neu drydedd iaith. Ond mae pob dysgwr iaith yn datblygu ystod eang o sgiliau ac yn cymryd rhan yn yr ystod o weithgareddau sy'n gyffredin i bob un o'u hieithoedd. Dyma grynodedb o'r sgiliau a'r gweithgareddau sy'n gyffredin yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, a Datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Llafaredd	Darllen	Ysgrifennu
- gwrando a gwylio'n astud, gan ymateb yn briodol i ystod eang o d dulliau cyfathrebu - adnabod y prif bwyntiau a dilyn y syniadau i fyny trwy holi ac ateb a dysgu trwy sgwrsio - cyfathrebu'n glir ac yn hyderus, gan fynegi barn a theimiadau ac addasu sgwrs yn ôl y gynulleidfa a'r pwrpas - ymestyn dealltwriaeth o gonfensiynau cymdeithasol sgwrs a thrafodaeth - datblygu'r gallu i drefnu ac ymestyn sgwrs trwy ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau brawddegol a geirfa - gwerthuso eu sgwrs eu hunain a sgwrs pobl eraill, gan ymestyn eu dealltwriaeth o sut i wella - profi ac ymateb i amrywiaeth o wahanol ysgogiadau a syniadau - siarad a gwrando yn unigol, mewn parau, neu mewn grwpiau ac fel aelodau o ddosbarth - defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh - cyflwyno, siarad a pherfformio ar gyfer amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd - cynyddu hyder mewn iaith trwy dynnu ar wybodaeth a gwneud cymariaethau gydag ieithoedd eraill.	- atgyfnerthu gwybodaeth ffonig, graffig a gramadegol, adnabod geiriau a dealltwriaeth gyd-destunol - datblygu'r gallu i ddarllen yn rhugl, gyda chywirdeb, dealltwriaeth a mwynhad - darllen mewn gwahanol ffyrdd at wahanol ddibenion, gan gynnwys: cip ddarllen, llithr ddarllen, craff darllen, rhagfynegi a dod i gasgliadau er mwyn canfod ystyr a gwella dealltwriaeth - ystyried beth maen nhw'n ei ddarllen/gweld, gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig - defnyddio ystod o strategaethau priodol i adalw gwybodaeth, gan gynnwys TGCh - adalw, coladu a chyfosod gwybodaeth a syniadau o ystod o ffynonellau - defnyddio'r wybodaeth a geir o ddarllen i ddatblygu eu dealltwriaeth o strwythur, geirfa, gramadeg ac atalnodi - darllen yn unigol ac ar y cyd - profi ac ymateb i ystod eang o destunau.	- defnyddio nodweddion testunau yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain - defnyddio ystod o batrymau brawddegol yn effeithiol i wella eu hysgrifen ac i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio paragraffau'n effeithiol - defnyddio atalnodi er mwyn egluro ystyr a chreu effeithiau - dewis a defnyddio ystod o eirfa - ymestyn yr ystod o strategaethau i gefnogi sillafu cywir - ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill - drafftio, golygu a gwella eu gwaith, gan ddefnyddio TGCh fel y bo'n briodol - defnyddio llawysgrifen ddarllenadwy a nodweddion priodol gosodiad a chyflwyniad, gan gynnwys TGCh - ysgrifennu ar gyfer ystod o bwrpasau ac mewn ystod o ffurfiau - ysgrifennu mewn ymateb i ystod eang o ysgogiadau.

Atodiad C: Rhestr termau

Gramadeg

adferf

adverb

Gair sy'n disgrifio neu'n goleddfu berf. Ceir gwahanol fathau o adferfau: modd, amser, lle, gradd.

amhersonol

impersonal

Pan nad yw'r ysgrifennwr yn dweud pwy sydd yn gweithredu, e.e. *daliwyd y lleidr* . . .

amodol

conditional

Ffurf ar ferf neu amser berfol sy'n cyfleu'r syniad bod yr hyn sy'n digwydd yn dibynnu ar rywbeth arall. Mae ffurfiau amodol yn aml yn cynnwys cysyllteiriau fel os neu *yna* a ffurfiau berfol fel *buasai* neu *gallai*.

amser berfol

tense

Y ffurf ar ferf sy'n dweud wrthyn ni pryd mae rhywbeth yn digwydd, e.e. gorffennol, presennol neu ddyfodol.

ansoddair

adjective

Gair sy'n disgrifio neu'n goleddfu enw. Gall ddod cyn neu ar ôl enw, e.e. *hen ddyn* neu *mae'r dyn yn hen*. Ceir gwahanol fathau o ansoddeiriau: nifer, e.e. *ychydig*; ansawdd, e.e. *da*; meddiannol, e.e. *fy*; gofynnol, e.e. *pa*; dangosol, e.e. *hwn*.

arddodiad

preposition

Geiriau sy'n disgrifio'r berthynas rhwng dau enw neu ragenw, e.e. *yn*, *ar*, *dan*, *rhwng*.

atalnodi

punctuation

Ffordd o farcio testun i helpu'r darlennydd ddeall (gweler hefyd yr adran 'Atalnodi').

bannod, y fannod

article

Gair cysylltiedig ag enw – *y*, *yr*, *'r*. Nid oes bannod amhendant yn Gymraeg.

berf

verb

Gair sy'n enwi gweithred neu gyflwr. Gall berfau fod mewn amserau gwahanol. Gall berf fod yn weithredol neu'n oddefol: Gyrrodd Siân y car (gweithredol), Gyrrwyd y car gan Siân (goddefol).

berfenw**infinitive**

Y rhan o'r ferf sy'n dilyn ymadroddion fel *roedd yn rhaid i mi*, e.e. *mynd, taflu*.

brawddeg**sentence**

Uned o iaith ysgrifenedig sy'n gwneud synnwyr ar ei phen ei hun. Mae'n dechrau â phriflythyren ac yn gorffen ag atalnod llawn. Gall brawddeg fod yn syml neu'n gymhleth a rhaid iddi gynnwys berf.

cymal**clause**

Rhan benodol o frawddeg sy'n cynnwys berf. Ceir dau fath: prif gymal – *Gwnaf fy ngwaith cartref* – ac isgymal – *pan gyrhaeddaf adref*. Mae'r prif gymal yn gwneud synnwyr ar ei ben ei hun ond nid felly'r isgymal.

cysylltair**conjunction**

Gair a ddefnyddir i gysylltu brawddegau neu gymalau neu i gysylltu geiriau mewn ymadrodd. Mae'n cyfleu gwahanol fathau o gysylltiad: achos, e.e. *oherwydd*; gwrthwyneb, e.e. *ond*; ychwanegiad, e.e. *a*; amser, e.e. *tan*.

cytundeb**agreement**

Mae geiriau cysylltiedig yn cytuno â'i gilydd yn nhermau nifer, cyflwr, cenedl a pherson, e.e. *dywedaf fi, dywedi di*, (person), *cariodd y merched eu llyfrau* (nifer).

ebychiad**exclamation**

Brawddeg neu ymadrodd sy'n cyfleu emosiwn fel dychryn, syndod neu ryfeddod.

enw**noun**

Gair sy'n enwi peth neu deimlad.

goddrych**subject**

Y sawl neu'r peth sy'n cyflawni'r weithred a geir yn y ferf, e.e. *Bwyttodd y ci yr asgwrn*; *Ysgrifennodd hi'r stori*.

gorffennol**past**

Amser berfol sy'n cyfleu'r hyn a ddigwyddodd neu a oedd yn digwydd.

gramadeg**grammar**

Y rheolau sy'n pennu'r berthynas rhwng geiriau mewn unrhyw iaith.

gwrthrych

Gwrthrych neu dderbyniwr y weithred mewn brawddeg, e.e. *taflodd y bêl*.

object**lluosog**

Ffurf ar enw, berf neu ragenw sy'n dangos bod mwy nag un.

plural**paragraff**

Rhan o ddarn o waith ysgrifennu. Mae paragraff newydd yn dangos newid amser, lle, pwnc neu siaradwr mewn deialog ac mae'n dechrau ar linell newydd. Weithiau bydd yr ysgrifennwr hefyd yn defnyddio bwlch o linell neu fewnoliad ar y llinell gyntaf.

paragraph**person**

Term i ddangos rhan o'r ferf. Person cyntaf *mi*, ail berson *ti*, trydydd person *ef/hi*. Ceir y lluosog hefyd – *ni*, *chi*, *nhw* (gweler 'cytundeb').

person**presennol**

Amser berfol sy'n cyfleu beth sy'n digwydd ar hyn o bryd neu beth sy'n digwydd fel arfer.

present**rhagenw**

Gair a ddefnyddir yn lle enw neu ymadrodd enwol, e.e. *ef*, *hi*.

pronoun**rhangymeriad**

Ffurfiâu berfol, yn y presennol neu'r gorffennol. Mae'r rhangymeriad presennol yn disgrifio proses sy'n parhau, e.e. *yn (dal i) cerdded ymlaen*. Mae'r rhangymeriad gorffennol yn disgrifio proses sydd eisoes wedi digwydd.

participle**treigladd**

Dan amgylchiadau arbennig, mae cytsain yn newid i gytsain arall ar ddechrau gair.

mutation**unigol**

Ffurf ar enw, berf neu ragenw sy'n dangos mai ond un sydd.

singular**y dyfodol**

Amser berfol sy'n mynegi beth fydd yn digwydd.

future**ymadrodd**

Dau air neu fwy sy'n ffurfio uned neu ran o frawddeg.

phrase

Sillafu

acen

Arwydd uwchben neu o dan lythyren sydd fel arfer yn newid yr ynganiad, e.e. *é, â, à, ö, ñ*.

accent

acronym

Gair sy'n cynnwys llythrennau cyntaf ymadrodd, e.e. *NATO, RSPCA*.

acronym

cytsain

Sain a gynhyrchir pan fydd siaradwyr yn defnyddio'u dannedd a'u tafodau. Holl llythrennau'r wyddor ac eithrio *a, e, i, o, u, w, y*.

consonant

gair cyfansawdd

Gair a wnaed o ddau air arall, e.e. *llyfrgell*.

compound word

gair cytras

Gair sy'n hanu o'r un gwreiddyn â gair mewn iaith arall, er nad yw o reidrwydd yn golygu'r un peth, e.e. *ystyr, history, histoire*.

cognate

gwreiddair

Gair y gellir ychwanegu blaenddodiad neu ôl-ddodiad ato i wneud geiriau eraill, e.e. y gwreiddair yn *cyfeillion, cyfeillgar* ac *anghyfeillgar* yw *cyfaill*.

root word

llafariad

Llythyren a gynhyrchir heb ffrithiant clywadwy o'r dannedd neu'r tafod – *a, e, i, o, u, w, y*.

vowel

ôl-ddodiad

Nifer o llythrennau a ychwanegir at ddiwedd gair i newid ei ystyr.

suffix

onomatopoeia

Geiriau sy'n swnio'n debyg i'w hystyron, e.e. *cwcw, siffrwd, gwddihw*.

onomatopeia

rhagddodiad

Nifer o llythrennau a ychwanegir at ddechrau gair i newid ei ystyr, e.e. *aneglur*.

prefix

rhestr termau

Rhestr o eiriau neu ymadroddion lle esbonnir eu hystyron.

glossary

sillaf

Mae pob curiad mewn gair yn sillaf.

syllable

talfyriad

Gair a wnaed yn fyrrach, e.e. *hysbys*.

abbreviation**yr wyddor**

Y rhestr o lythrennau a ddefnyddir i lunio geiriau'r iaith.

alphabet**Atalnodi****atalnod ,**

Fe'i defnyddir i wahanu rhannau o frawddeg neu restr.

comma**atalnod llawn .**

Fe'i defnyddir i ddangos diwedd brawddeg.

full stop**colon :**

Fe'i defnyddir i gyflwyno rhestr neu ail gymal sy'n ehangu neu'n enghreifftio'r cymal cyntaf.

colon**collnod '**

Fe'i defnyddir i ddangos cywasgu, e.e. *mae'r*, neu feddiant yn Saesneg, e.e. *the dog's basket*.

apostrophe**dyfynodau " "**

Fe'i defnyddir i ddangos llefaru uniongyrchol mewn testun.

speech marks**ebychnod !**

Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i gyfleu emosiwn fel sioc, hiwmor, dicter, hapusrwydd.

exclamation**gofynnod ?**

Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i ddangos mai cwestiwn ydyw.

question mark**hanner-colon ;**

Fe'i defnyddir i wahanu cymal neu ymadrodd mewn brawddeg. Mae'n gryfach nag atalnod ond heb fod cyn gryfed ag atalnod llawn.

semi-colon**seren ***

Fe'i defnyddir i drefnu testun, e.e. i dynnu sylw at droednodyn.

asterisk

Termau iaith

acen

Amrywiadau mewn ynganiad a thonyddiaeth yn ôl ardal neu wlad y siaradwr (gweler hefyd yr adran 'Sillafu').

accent

anffurfiol

Iaith a ddefnyddir mewn cyd-destun cyfarwydd neu gyda phobl mae'r siaradwr neu'r ysgrifennwr yn eu hadnabod.

informal

bratiaith

Geiriau neu ymadroddion a ddefnyddir mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Cysylltir nhw weithiau ag ardal neu grŵp o bobl.

slang

cerdd

Testun sy'n defnyddio rhythm, odl neu gystrawen a geirfa i gyfleu syniadau ac ystyr, a hynny ar ffurf gywasgedig yn aml.

poem

cymeriad

Unigolyn mewn stori, cerdd neu ddrama.

character

cynulleidfa

Y bobl neu'r darllenwyr mae'r testun yn eu cyfarch.

audience

delweddaeth

Defnyddio iaith i greu delwedd fywiog neu synhwyrdd, sy'n weledol yn aml.

imagery

ffaith

Gwybodaeth a dderbynnir neu sy'n brofadwy ac a gefnogir gyda thystiolaeth.

fact

ffuglen

Testun a ddyfeisiwyd gan siaradwr neu ysgrifennwr.

fiction

ffurfiol

Iaith lafar neu ysgrifenedig a ddefnyddir mewn cyd-destun ffurfiol neu anghyfarwydd, e.e. cyfarch ymwelwyr, ysgrifennu llythyrau ffurfiol.

formal

goslef

Tôn y llais a ddefnyddir gan siaradwyr i gyfleu ystyr. Mae goslef yn amrywio rhwng ieithoedd a'i gilydd.

intonation

idiom/priod-ddull**idiom**

Ymadrodd nas golygir yn llythrennol, ond a ddeëllir gan bobl sy'n ei ddefnyddio, e.e. *a'i gwynt yn ei dwrn, a'i ben yn ei blu*.

llafar**colloquial**

Mae'n disgrifio sgwrs neu iaith a ddefnyddir mewn cyd-destun anffurfiol neu gyfarwydd.

llefaru**speech**

Iaith siarad. Llefaru uniongyrchol yw'r geiriau a lefarwyd mewn gwirionedd, a dangosir hyn gyda dyfynodau, e.e. "*Eisteddwch!*" *meddai*. Llefaru anuniongyrchol yw'r hyn mae ysgrifennwr yn dweud a lefarwyd, e.e. *Dywedodd wrthi am eistedd*.

odl**rhyme**

Dywedir bod geiriau sydd â'r un llythrennau yn y sillaf olaf yn odli, e.e. *aeth, daeth, llaeth*.

tafodiaith**dialect**

Amrywiadau mewn ynganiad geirfa a chystrawen yn ôl ardal neu y siaradwr.

testun**text**

Iaith a drefnwyd i gyfathrebu ar ffurfiau llafar, ysgrifenedig neu electronig.

testun cyfarwyddo**instruction text**

Testun a ysgrifennwyd i helpu'r darlennydd i wneud rhywbeth, e.e. cyfarwyddiadau, ryseitiau.

testun gwybodaeth**information text**

Testun a ysgrifennwyd i drosglwyddo gwybodaeth, e.e. adroddiad, eglurhad neu ddisgrifiad.

testun traethiadol**narrative text**

Testun sy'n adrodd digwyddiadau yn eu trefn amseryddol. Gall fod yn ffuglennol neu fe all gynnwys gwybodaeth.

ynganiad**pronunciation**

Rheolau sy'n pennu'r ffordd mae grwpiau o lythrennau'n swnio mewn iaith lafar. Mae rheolau ynganu'n wahanol mewn gwahanol ieithoedd.

Sgiliau iaith

aiddrafftio

redraft

Diwygio, newid neu gywiro drafft cyntaf testun.

dangos dealltwriaeth

comprehension

Deall testun ysgrifenedig neu lafar. Gellir cyfleu deall drwy ymateb ar lafar neu'n ddi-iaith.

darllen

reading

Deall ac ymateb i destun ysgrifenedig, ar ffurf argraffedig, ysgrifenedig neu electronig.

drafft

draft

Ffurf ysgrifenedig gyntaf neu anorffenedig ar destun. Enw'r broses o weithio ar destun yw drafftio.

golygu

edit

Newid neu gywiro testun ysgrifenedig neu lafar.

gwrando

listening

Deall ac ymateb i iaith a leferir yn uniongyrchol wrth y gwrandäwr neu lefaru a recordiwyd.

siarad

speaking

Mynegi'ch hun ar lafar.

ysgrifennu

writing

Mynegi'ch hun ar ffurf ysgrifenedig.

Atodiad Ch: Adnoddau a gwefannau defnyddiol

CILT Cymru

www.ciltcymru.org.uk

Estyn

Gwellla ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd Cymru (2009)

www.estyn.gov.uk/uploads/publications/6544.pdf

GCaD Cymru

Poster llythrennedd triphlyg yn Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg yn ogystal ag ystod o adnoddau.

www.gcad-cymru.org.uk

Llywodraeth Cymru

Gellir dod o hyd yr adnoddau canlynol ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau ac wedyn dilyn y dolenni 'Ysgolion', 'Cwricwlwm ac Asesu' ac 'Y cwricwlwm ysgol yng Nghymru'.

Cymraeg yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru (2008)

Saesneg yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru (2008)

Ieithoedd tramor modern yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru (2008)

Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru (2008)

Sgiliau ar draws y cwricwlwm: Datblygu cyfathrebu

Cwricwlwm i bob dysgwr (2010)

Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm (2010)

Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu (2010)

Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen (2010)

Cefnogi uwch sgiliau llythrennedd dysgwyr (2009)

Rhwydwaith o ysgolion

Cysylltu ysgolion ar draws Ewrop lle mae ieithoedd lleiafrifol yn cael eu dysgu.

www.networkofschools.org

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) Llywodraeth Cymru ddiolch i CILT Cymru a'r athrawon a'r dysgwyr yn yr ysgolion canlynol am eu cyfraniadau gwerthfawr a'u deunyddiau ar gyfer yr astudiaethau achos.

Ysgol Alun, Sir y Fflint

Ysgol Botwnnog, Gwynedd

Ysgol Croesyceiliog, Torfaen

Ysgol David Hughes, Ynys Môn

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, Bro Morgannwg

Ysgol Gyfun Cymer Afan, Castell-nedd Port Talbot

Ysgol Gyfun Trecelyn, Caerffili

Ysgol Gyfun y Barri, Bro Morgannwg

Ysgol Gynradd Dunvant, Abertawe

Ysgol Gynradd Machen, Caerffili

Ysgol Uwchradd Caerdydd, Caerdydd

Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd